

Cymuned yr ysgol

Mae’n datgan yn bolisïau’r ysgol fod gan yr ysgol gymuned “ymroddgar a chefnogol”. Yn ôl Mr R. Thomas, athro cyfnod allweddol 2 yn fy ysgol pontio, mae’r Sir Castell-nedd a Phort Talbot nawr yw’r fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae’r sefyllfa yma’n cael ei adlewyrchu mewn anghenion cymdeithasol ac amrywiol a welir gyda disgyblion newydd i’r ysgol a gweler llawer mwy o anghenion emosiynol yn y disgyblion ifanc sy’n datblygu oherwydd y gymdeithas, dalgylch a maint yr ysgol sydd wedi newid yn syfrdanol dros y tair blynedd diwethaf yn bennaf. Mae ‘Fy Ysgol Leol’ yn nodi yn 2019 roedd 415 o ddisgyblion yn fy ysgol pontio ac mae hynny’n dal i dyfu. O’r niferoedd hyn, mae 11.4% ohonyn nhw yn derbyn prydau ysgol am ddim sy’n gyfanswm o 47 o blant. Yn ôl yr adran ‘Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig’ sy’n golygu unrhyw gefndir ethnig heblaw am ‘Gwyn-Prydeinig’ yn dangos bod 1.7% yn yr ysgol yn 2019 ond 6.4% yn yr Awdurdod Lleol sy’n ffactor a all cael effaith ar y gymuned a’r ysgol gan ei fod yn newid beth mae’r plant yn efallai gweld neu’n clywed, er enghraifft hiliau ac ieithoedd sy’n gallu fod yn annormal i blant yr ysgol. Fel yr adroddwyd gan ‘National Assembly for Wales’ (Dolman, 2010) “the 2008 Annual Population Survey estimated 26 per cent of people aged 3 or more can speak Welsh, compared with 27 per cent across Wales”. Gall yr ystadegau yma cyfleu bod y lleiafrif yn yr ardal yn siarad Cymraeg sydd efallai yn cael effaith ar allu iaith disgyblion yr ysgol. Dywed polisïau’r ysgol yn y ‘Cod ymddygiad ar gyfer rhieni ac ymwelwyr’ bod angen iddyn nhw ddilyn yr ymddygiad disgwylledig sy’n cynnwys “Gydweithredu’n adeiladol ac yn bositif gydag athrawon a staff”. Credaf taw’r polisi yma’n ystyried cymuned yr ysgol a sut mae angen defnyddio’r amgylchedd o’i chwmpas a chydweithio efo’r rhieni er mwyn chael a chynnal perthnasoedd cryf a cael addysg gorau posibl i’r disgyblion.

Y berthynas rhwng y dysgwr, yr ysgol, rhieni a’r gymuned

- Mae fy ysgol pontio yn ceisio creu cysylltiad cryf a’r rhieni wrth ddefnyddio nifer o strategaethau. Mae rhain yn cynnwys cadw nhw ynghylch gyda trefniadau’r ysgol.
- Danfonant gylchlythyr allan bob dydd Gwener am yr wythnos i ddod, mae hyn yn cynnwys clybiau, gwersi penodol, beth sydd angen er enghraifft adnoddau ychwanegol neu git.
 - Darperir taflen drosolwg o thema’r tymor yn dilyn cynllun y cwricwlwm newydd, hynny yw'r 6 maes dysgu a phrofiad (AoLE), beth fydd pob un yn cynnwys er enghraifft pa weithgareddau byddant yn gwneud sy’n gysylltiedig i’r thema.
 - Maent yn cynnal nosweithiau rhieni, unigol a grŵp, sy’n cael pwyslais mawr ar faeth y plant.
 - Maen nhw’n cynnal wythnos ‘dewch a rhiant i’r dosbarth’ er mwyn rhyngweithio efo nhw a rhoi’r cyfle iddyn nhw weld a deall sut a beth mae’r plant yn dysgu.
 - Cynhelir polisi drws agored, maent yn ystyried yr ysgol fel un groesawgar sy’n golygu bod y rhieni yn gallu siarad neu gwrrdd â staff unrhyw bryd.
 - Dathlu llwyddiant: mae gwasanaethau Seren yr wythnos yn cynnwys tystysgrif yn cael ei ddanfôn adref i’r rhieni gweld.
 - Crëwyd gwefan ysgol newydd dyluniwyd gan y cyngor ysgol, mae hynny’n golygu gwnaethon nhw ddefnyddio llais y disgybl.
 - Rhoddir cyfle i’r plant ymweld â’r gymuned o gwmpas yr ysgol: maent yn cael ymweliadau i Barc y Gnoll, y llyfrgell leol, ffair Castell-nedd, y farchnad a chae rygbi poblogaidd, lleol.



EPSTEIN'S FRAMEWORK OF SIX TYPES OF INVOLVEMENT (1995)	
TYPE OF INVOLVEMENT	DEFINITION
PARENTING	PROVIDING HOUSING, HEALTH, NUTRITION, SAFETY; PARENTING SKILLS IN PARENT-CHILD INTERACTIONS; HOME CONDITIONS TO SUPPORT STUDY; INFORMATION TO HELP SCHOOLS UNDERSTAND EACH CHILD
COMMUNICATION	SCHOOL-HOME COMMUNICATION
VOLUNTEERING	IN-SCHOOL HELP IN CLASSROOMS OR AT SCHOOL EVENTS
TEACHING AT HOME	HELP WITH HOMEWORK, SUBJECT SKILLS, OTHER SKILLS AND TALENTS
DECISION MAKING	MEMBERS OF PTA/GOVERNORS OR OTHER COMMITTEES AND ADVISORY GROUPS
COLLABORATING WITH THE COMMUNITY	COMMUNITY CONTRIBUTES TO SCHOOLS AND FAMILIES; FAMILIES AND SCHOOLS CONTRIBUTE TO THE COMMUNITY



Dechrau wrth fy Nhraed

Lucy Owen - 1901389

Damcaniaethau ar gysylltiadau rhwng yr ysgol a rhieni

Credaf fod dysgu yn dechrau yn y cartref a bod gan rieni’r cyfrifoldeb i annog datblygiad plant o oedran cynnar; cyn iddyn nhw ddechrau ysgol. Sonia’r Athro Carolyn Webster-Stratton yn ei lyfr ‘Sut i hybu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant’ am bwysigrwydd cydweithio efo rhieni a chreu partneriaethau cryf. Maent yn cynnwys adran sydd a’r teitl “Ffyrdd o hyrwyddo ymwneud a rhieni” ac o dan hynny sonia hi am yr ymdrechion dylai athrawon gwneud er mwyn dod i adnabod rhieni a’r plant y bydd yn ei addysgu. Yn ôl Yr Athro Webster-Stratton “Dylai ymdrechion i gynnwys rhieni ddechrau hyd yn oed cyn i’w plant gyrraedd yr ysgol.” (Webster-Stratton, 2010, tud. 9) Mae hyn yn cyfleu bod y dylanwad mae’r cysylltiad rhwng yr ysgol a rhieni yn cael yn un fawr. Mae angen y perthynas yma ar bob aelod er mwyn cynnal gonestrwydd a pharch, wrth hyn yr wyf yn golygu bod y rhieni, yr addysgwyr a’r plentyn angen cadw cysylltiad wrth rannu teimladau, barnau sy’n cadw pawb ar yr un dudalen a chredaf mai hyn sy’n hybu datblygiad plant. Credaf os yw’r rhieni yn gwybod a deall beth sy’n mynd ymlaen yn yr ysgol yna bydd o fudd i addysg eu plant. Mae Webster-Stratton yn sôn am agoriad y llyfr ‘New Generation of Evidence: The Family Is Critical to Student Achievement’ sy’n datgan “... Pan fo ysgolion yn cydweithio gyda rhieni i gefnogi dysgu, mae plant yn dueddol o lwyddo – nid yn unig yn yr ysgol ond drwy gydol eu hoes. (Henderson and Berla).” (Webster-Stratton, 2010, tud. 7) Fel y gwelwch yn yr adran ‘Y berthynas rhwng y dysgwr, yr ysgol, rhieni a’r gymuned, mae fy ysgol leoliad yn danfon cylchlythyr allan bob dydd Gwener; yn ôl Webster-Stratton mae’r strategaeth yma’n un ffordd o hyrwyddo cysylltiadau a rhieni. Mae hi’n credu byddwn ni fel athrawon yn “ennill cefnogaeth gynyddol oddi wrth rieni os darparwch wybodaeth ar eu cyfer am y cwricwlwm a’r hyn sy’n digwydd yn yr ysgol.” (Webster-Stratton, 2010, tud. 10) Mae’r ymchwil yma’n cefnogi strategaethau fy ysgol leoliad. Fodd bynnag, gall gor-gymryd rhan neu geisio cael y rhiant i wybod popeth fel petaent yn y dosbarth gyda’i phlant a’r addysgwyr rhoi llai o ryddid i’r plant cael bywyd ysgol ar wahân. Mae cyfranogiad rhieni hefyd yn dibynnu ar ffactorau ariannol ac amddifadedd, golygaf wrth hyn gall ardaloedd difreintiedig a dlawd cael effaith negyddol ar y berthynas rhwng rhieni ac athrawon. Yn ôl McNeal Jr. (2001, tud. 177) “It has also been noted that poor parents and minorities are far less likely to be involved in school-based activities and far less likely to meet with educators due to this sense of intimidation and past negative experiences (e.g. Becker and Epsein, 1982; Lareau,1987).” Cytunaf gyda hyn gan fy mod wedi gweld y sefyllfa yma yn fy ysgol pontio, credaf mai rhai rhieni yn gallu teimlo’n ofn i fynd i’r afael a sefyllfaoedd oherwydd ei fod yn teimlo fel petai’r athro yn adnabod ei blant yn well neu oherwydd maen nhw’n eu beirniadu. Ond ar y llaw arall, gall y ffordd o gyfathrebu efo rhieni newid yr agweddau yma, sonia arolygaeth Estyn (2012) “... successful schools find that the best way to engage with their parents is to communicate and work with them face-to-face.” Gall y strategaeth yma fod yn galonogol i rieni, gallai wneud iddyn nhw deimlo fel eu bod yn rhan o deulu’r ysgol ac o fudd i addysg eu plant.

Diwylliant a’r cyd-destun sosio-economaidd y gymuned.

Gan fod y sir Castell-nedd a Phort Talbot yw’r fwyaf difreintiedig yng Nghymru mae lot o ffactorau felly yn cael ei effeithio. Yn ôl Neath Port Talbot Public Services Board “Of the 22,518 homes in the area, 14,488 (64.3%) were identified as being deprived using one or more of the following 4 dimensions of deprivation; employment, education, health/disability and household overcrowding (Census 2011).” Felly, mae’r mwyafrif o bobl yn dioddef o amddifadedd ac felly yn gorfod aberthu un neu fwy o’r 4 dimensiwn o ddifreintedd. Os mae angen aberthu elfennau o addysg sef trafndiaeth i ysgol, cymorth ychwanegol, adnoddau angenrheidiol, gwisg ysgol ac yn y blaen, bydd y rhain yn cael effaith negyddol ar y plant. Gall ddiwylliant cael effaith ar y plant a chymuned yr ysgol gan ei fod yn newid y ddynmeg. Nid yw hynny’n meddwl ei fod yn cael effaith cadarnhaol na negyddol chwaith. Fodd bynnag, mae’r asesiad yn datgan: information from the Census shows a decrease in the percentage of people who identified themselves as Christian, from 72% in 2001 to 58% in 2011. During the same period, there was also a noticeable increase in people declaring that they had ‘no religion’, from 20% to 34%. (Well-being Assessment, tud.7).

Felly gallwn gymryd nid yw’r sefyllfa ddiwylliannol wedi newid cymaint yn y blynyddoedd diwethaf ac felly gallwn gymryd nid yw ysgolion yr ardal wedi derbyn lot o newid mewn diwylliant ond mae’r ardal yn dioddef o ddifreintedd yn fwy nag unrhyw beth.

- Llun 'Family Engagement' yn perthyn i Michigan Department of Education – Ar gael yn: <https://www.michigan.gov/mde/0,4615,7-140-5233---00.html>
- Llun 'Epstein's Framework of Six Types of Involvement (1995)' yn perthyn i Groupcall – Built on Trust - Ar gael yn: <https://www.groupcall.com/blog/better-parental-involvement>

Rhestr Cyfeiriadau

- Dolman, R. (2010) *Key Statistics for Neath* National Assembly for Wales <https://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/10-038.pdf%20-%2014052010/10-038-English.pdf> (Darllenwyd: 20 Ionawr 2019).
- Llywodraeth Cymru, *Fy Ysgol Lleol* (2019) – Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6712168?lang=cy> (Darllenwyd: 20 Ionawr 2019)
- McNeal, R. Jr. (2001) 'Journal of Socio-economics' *Differential effects of parental involvement on cognitive and behavioral outcomes by socioeconomic status*, tud. 171–179. Ar gael yn: <https://reader.elsevier.com/reader/sd/pii/S1053535700001001?token=F37270720E2FD48970D082DBA0D97B427E558ED8CA5A1318B7790ECE28D233A631023B3DC84050E260AF6769E7970C6A> (Darllenwyd: 23 Ionawr 2019)
- Neath Port Talbot Public Services Board, *Well-Being Assessment* – Ar gael yn: <http://wellbeingsite.dns-systems.net/wp-content/uploads/2017/05/Neath-PDF.pdf> (Darllenwyd: 27 Ionawr 2019)
- Webster-Stratton, C. (2010) *Y Llyfr Melyn: Sut i hybu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Ysgol Gymraeg Castell-nedd, *Polisi Cod ymddygiad* (2019) – Ar gael yn: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ygg-castell-nedd/UploadedDocument/8937362139e34226910d87e2d88fd382/cod-ymddygiad-ygg-castell-nedd-code-of-conduct-2019.pdf> (Darllenwyd: 23 Ionawr 2019)